# GRUFFYDD ap RHYDDERCH ap IESTYN (bu farw 1055), brenin

**Enw:** Gruffydd ap Rhydderch ap Iestyn
**Dyddiad marw:** 1055
**Plentyn:** Caradog ap Gruffydd ap Rhydderch
**Rhiant:** Rhydderch ab Iestyn
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** brenin
**Maes gweithgaredd:** Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
**Awdur:** Thomas Jones Pierce

Pan feddiannwyd y Deheubarth gan Gruffydd ap Llywelyn yn 1044, rhoddwyd ynni newydd i wrthwynebiad y De; gan arweiniad Gruffydd ap Rhydderch; felly adenillodd ei hannibyniaeth yn 1045. Rhoddodd Gruffydd i'w wlad fabwysiedig lywodraeth rymus a nodweddwyd gan wrthwynebiad i'r Daniaid. I raddau gellir priodoli ei hawl i ymyrryd yn helyntion Deheubarth i'r ffaith i'w dad lwyddo i gipio'r awdurdod yno rhwng 1023 a 33. Yn ychwanegol yr oedd Gruffydd eisoes yn frenin ym Morgannwg - ar Wynllwg mae'n debyg - a bu gan ei ddisgynyddion fesur o awdurdod yno hyd 1270.

## Awdur

**Yr Athro Thomas Jones Pierce**, (1905 - 1964)

## Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), ii, 361-4, table 771

*Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1899-1900, et seq.

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Gruffydd ap Rhydderch

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q2454709

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu